Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru

# Rhestrau gwirio cyn agor

## Rhestrau gwirio cyn agor

Canllaw yw hwn ar gyfer lleoliadau gofal plant yng **Nghymru**. **Ysgrifenwyd y canllaw ar 28 Mai 2020.**

Cofiwch ddarllen yn ofalus pob deunydd canllaw perthnasol gan Lywodraeth Cymru fel eich bod yn deall yn iawn beth sydd ei angen ar gyfer ail agor.
Mae'n bwysig fod yr wybodaeth gennych chi'r wybodaeth gywir, cofiwch mai gan **Lywodraeth Cymru** y mae'r hawl i lacio'r cyfnod clo a dod allan o'r argyfwng hwn yng Nghymru.

- **Os yw plentyn / aelod o staff neu aelod o deulu plentyn neu aelod o staff yn dangos symptomau COVID-19 mae'n rhaid iddyn nhw beidio dod i'r lleoliad gofal plant a dilyn canllawiau presennol Iechyd Cyhoeddus Cymru**
- **Os bydd plentyn yn derbyn gofal yn dangos symptomau, dylid symud y plentyn oddi wrth blant eraill a galw ar riant / gofalwr ar unwaith i gasglu'r plentyn a'i ddanfon adref**

Rydyn ni'n deall na fydd ail agor eich lleoliad yn golygu mynd yn ôl i'r ffordd roeddech yn gweithio o'r blaen, mae'n debyg iawn y bydd pethau'n ymddangos yn wahanol iawn i ddechrau ac y bydd yn cymryd amser i fynd yn ôl i ble roeddech chi. **Mae'n rhaid ail agor mewn ffordd sy'n rhoi diogelwch y plant, y staff a'r rhieni yn gyntaf.**
Nid yw'r rhestr yn holl gynhwysol, ei diben yw eich annog i feddwl am y newidiadau efallai y bydd yn rhaid i chi eu gwneud wrth inni symud yn ôl at wasanaeth llawn. Mae'r cyngor yn newid bron bob dydd felly efallai y bydd rhai o'r canllawiau wedi newid, byddwn yn gwneud ein gorau i gadw'r canllaw hwn yn gyfoes ar ein gwefan earlyyears.wales

| Cynllun Busnes | Ble i gael rhagor o wybodaeth |
|---|---|
| Edrychwch ar wefannau eich awdurdod lleol, Busnes Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i gael gwybodaeth ynghylch grantiau a chefnogaeth fusnes. | https://businesswales.gov.wales/<br>https://wcva.cymru/ |
| Arian – byddwch yn realistig, efallai na fyddwch yn gallu rhedeg â'ch lle yn llawn o ran nifer y plant nac oriau.<br>Dylech ystyried yn ofalus beth sy'n ariannol hyfyw o dan y cyfyngiadau presennol. | |
| Paratowch gyllideb realistig, cofiwch y gallai llai o arian ddod i mewn a mwy fynd allan. | |

| | |
|---|---|
| A fydd gennych chi gostau ychwanegol megis cynnyrch glanhau, offer amddiffyn personol? | |
| Faint o staff fyddwch chi eu hangen i sicrhau diogelwch pawb, efallai y bydd yn rhaid i chi gadw rhai staff ar seibiant (furlough) – mae proses a rheolau hyn yn newid yn rheolaidd, cofiwch gael yr wybodaeth ddiweddaraf oddi wrth Gyllid a Threthi Ei Mawrhydi. | https://www.gov.uk/guidance/claim-for-wage-costs-through-the-coronavirus-job-retention-scheme |
| Dylech adolygu bob wythnos, mae pethau wedi newid mor gyflym yn yr argyfwng hwn, cofiwch wneud yn siŵr eich bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf. | |
| **Ble i gael rhagor o wybodaeth** | |
| Blynyddoedd Cynnar Cymru | https://earlyyears.wales/ |
| Llywodraeth Cymru | https://gov.wales/ |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | https://phw.nhs.wales/ |
| Cyllid a Threthi Ei Mawrhydi | https://www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs |
| Busnes Cymru | https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/ |
| Paratowch gynllun busnes sy'n dangos sut i agor fesul tipyn nes cael y nifer llawn. | |
| Bydd yn anodd rhagweld sut a phryd y daw arian Awdurdodau Lleol yn ôl – efallai y bydd trefniadau pob sir yn wahanol. | |
| **Pwy ddylech chi eu hysbysu?** | |
| Arolygiaeth Gofal Cymru | https://careinspectorate.wales/ |
| Landlord | |
| Yswiriant | |
| Awdurdod Lleol | |
| Rhieni | |
| **Arolygiaeth Gofal Cymru** | |
| Hysbysu'r bwriad i ail agor. | https://careinspectorate.wales/ |
| Ystyried a ddylech chi addasu'r datganiad o ddiben i ddangos y newidiadau rydych chi wedi'u gwneud a hysbysu'r Arolygiaeth drwy eu gwasanaethau ar lein. | |
| Os ydych chi wedi newid neu ychwanegu polisïau newydd, bydd yn rhaid i chi hysbysu'r Arolygiaeth drwy eu gwasanaethau ar lein. | |

| | |
|---|---|
| Ystyriwch yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch gofal plant sy'n cael ei reoleiddio yng Nghymru. Dylech gyflwyno cais i'ch Awdurdod Lleol os ydych yn dymuno gwneud newidiadau o dan y canllawiau newydd ar gyfer newidiadau i'r safonau gofynnol Cenedlaethol. | https://gov.wales/national-minimum-standards-regulated-childcare-coronavirus-covid-19<br>https://careinspectorate.wales/coronavirus-covid-19 |
| **Paratoi eich Eiddo** | |
| A yw eich eiddo mewn cyflwr da? A yw'r adeiladu wedi bod ar gau neu a oes rhywun arall wedi bod yn unrhyw un o'r rhannau ydych chi'n eu defnyddio? | |
| Profwch eich cyflenwad dŵr, gollyngwch ddŵr yn unol â'ch polisi a'ch asesiad risg ynghylch legionella. | https://www.hse.gov.uk/legionnaires/ |
| Profwch eich gwres canolog, cyflenwad dŵr poeth, larymau mwg, diffodydidon tân. A yw eich holl dystysgrifau diogelwch yn gyfoes? | |
| Chwiliwch y tu allan i weld a oes yna sbwriel, chwyn ayb wedi cronni ac am fandaliaeth. | |
| A yw'r adeiladau a'r fynedfa'n cael eu rhannu? Pwy fydd yn gyfrifol am gadw'r mannau sy'n cael eu rhannu'n lân? | |
| Ni ddylid gadael i ymwelwyr ddod i'ch lleoliad pan mae ar agor, dylai unrhyw waith cynnal a chadw gael ei wneud allan o oriau a dylid glanhau pob man yn hollol drylwyr cyn gadael plant yn ôl yno. | |
| Ble bydd rhieni'n aros i ollwng / codi eu plant? Oes yna ffordd o sicrhau y gellir bodloni'r argymhelliad o bellter cymdeithasol ddwy fetr? | |
| A oes angen i chi farcio'r llawr? A oes angen i chi amrywio pryd y mae rhieni'n danfon a chodi eu plant? | |
| Sut mae rhieni'n cyrraedd eich lleoliad? Gyda char, cerdded, cludiant cyhoeddus? | |
| A yw'r man codi a gollwng yn glir? A oes digon o le yno? | |
| Ystyriwch ddefnyddio system un ffordd. | |
| Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'r rhieni. | |
| **Taliadau** | |
| Ystyriwch adolygu strwythur eich ffioedd. | |
| Ystyriwch godi tâl fesul awr. Efallai y bydd yn gryn amser cyn y byddwch yn gallu cynnig gwasanaeth llawn. | |

| | |
|---|---|
| Ystyriwch ofyn am daliadau wythnosol yn hytrach na rhai misol, bydd hyn yn helpu eich llif arian. | |
| A ddylech chi ofyn am daliadau misol ymlaen llaw? | |
| Ydych chi'n gallu cymryd taliadau digyswllt? A ddylech chi ystyried Pingit, trosglwyddiadau BACS, Debydau Uniongyrchol. | Cysylltwch â'ch banc am gyfarwyddiadau |
| Gallwch gael dyfeisiadau talu gyda cherdyn a chymryd taliadau digyswllt, ond mae'r rhain yn costio. | |
| Rhowch ddigon o rybudd i rieni am y strwythur talu newydd er mwyn iddyn nhw allu paratoi. | |
| **Gosodiad y lleoliad** | |
| A ddylech chi ystyried gosodiad eich lleoliad i weithredu'r drefn newydd? Ystyriwch wahanu mannau oddi wrth ei gilydd i allu cadw pellter cymdeithasol rhwng grwpiau penodol. | |
| Cyfrifwch faint o staff a phlant fydd yn gallu defnyddio'r lle sydd ar gael yn ddiogel. | |
| Ystyriwch beidio â defnyddio peth o'r offer a'r teganau, yn enwedig pethau meddal fel bagiau ffa, teganau meddal a theganau sy'n anodd eu glanhau. Bydd hyn yn rhyddhau mwy o le ac yn lleihau'r gwaith glanhau. | |
| Bydd yn rhaid annog plant i beidio â rhannu teganau. | |
| Ystyriwch roi pecyn chwarae i bob plentyn gyda chreon, pensiliau, siswrn saff, toes chwarae ayb. | |
| Efallai na fydd rhannu llyfrau'n addas gan na ellir eu glanhau, efallai y gallech chi gael amser stori'n amlach, beth am ddefnyddio llyfrgelloedd digidol? | |
| Sut allwch chi gael y gorau o le'r tu allan? A fyddai o fantais codi canopïau er mwyn i'r plant allu aros allan ym mhob tywydd. | |
| Allwch chi gadw'r ffenestri ar agor i gael digon o awyru? | |
| Ystyriwch gadw eich plant a'ch staff mewn grwpiau cymdeithasol gwahanol. | |
| **Glanhau** | |
| **Golchi dwylo** | |

| | |
|---|---|
| Oes gennych chi ddigon o adnoddau golchi dwylo? Ydyn nhw ar gael yn hwylus? Efallai y byddech yn hoffi gosod mwy o fasynau golchi dwylo neu efallai gael mannau golchi dwylo symudol y gellir eu gosod y tu allan. | |
| Ni fydd angen glanhau'n drylwyr os nad oes neb wedi bod yn yr eiddo ers iddo gau. Ond, os oes rhywun wedi bod yn yr eiddo o fewn pum diwrnod o ail agor, mae'n rhaid glanhau'n drylwyr bob wyneb sydd wedi'i gyffwrdd. | |
| Dilynwch ganllawiau rheoli heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae rhain yn gynhwysfawr, felly gwnewch yn siŵr bob pob aelod o staff yn eu deall ac yn eu dilyn. | https://phw.nhs.wales/services-and-teams/harp/infection-prevention-and-control/guidance/accordians/docs/infection-prevention-and-control-guidance-2019-for-childcare-settings-0-5-years-in-wales-nurseries-childminding-and-playgroups/ |
| Dylech drin glanweithydd dwylo yn yr un ffordd ag y byddech yn trin eli haul a sicrhau bod gennych ganiatad y rhieni. Efallai y byddwch yn teimlo fod trefn olchi dwylo dda yn well, a dylech ddilyn y canllawiau presennol. | |
| Oes gennych chi gyflenwr dibynnol ar gyfer deunydd glanhau? Allwch chi gael cymaint ag ydych chi eisiau? Ystyriwch gael stoc nawr. | |
| Ydych chi angen rhagor o offer diogelwch personol ar gyfer staff? Oes gynnych chi ddigon ohonyn nhw? | |
| Ystyriwch ysgrifennu polisi newydd ar gyfer golchi dwylo ac offer diogelwch personol. | |
| Adolygwch sut y byddwch yn rheoli eich gofynion golchi dillad. | |
| **Staff** | |
| Gofalwch am eich staff, efallai eu bod yn poeni am ddod yn ôl i'r gwaith, mae'n rhaid trin pob aelod o staff fel unigolyn. Ystyriwch y canlynol: | |
| Problemau iechyd gwaelodol. | |
| Amgylchiadau teuluol / gartref – ydyn nhw'n ofalwr? Os yna rywun yn eu cartref sydd ar y rhestr pobl fregus neu'n feichiog? | |

| | |
|---|---|
| Gofalwch am Iechyd Meddwl a Lles eich staff, fe fyddan nhw'n cael dyddiau da a dyddiau drwg, rhowch gyfle iddyn nhw gael digon o seibiant ac i siarad ynghylch sut maen nhw'n teimlo. | |
| Sut y bydd staff yn teithio i'r gwaith? Efallai nad yw'r bysiau'n rhedeg mor aml ac efallai hefyd fod staff ofn eu defnyddio. | |
| Bydd yn rhaid iddyn nhw newid dillad ar ôl cyrraedd y gwaith – oes gennych chi rywle iddyn nhw wneud hynny? Oes gennych chi ddigon o offer diogelu personol ar eu cyfer? A yw staff yn deall pwysigrwydd yr hyn y mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud ar ôl cyrraedd adref, newid dillad, cael cawod ayb? | |
| Hyfforddiant<br>A fyddwch chi angen cynnal peth hyfforddiant gloywi rhithiol, fel deall mesurau rheoli haint? | |
| Os yn bosibl, efallai y gallwch chi alw cyfarfod staff o bell. Cofiwch gynnwys staff yn y trafodaethau a'r penderfyniadau - a chofiwch gadw cofnodion. | |
| Profion i staff – dilynwch ganllawiau presennol Llywodraeth Cymru. | https://gov.wales/apply-coronavirus-test |
| **Rhieni** | |
| Efallai fod hyder rhieni'n isel ac efallai y byddan nhw'n bryderus wrth adael eu plant. | |
| Gofynnwch i rieni pa fath o ofal plant maen nhw ei angen er mwyn i chi allu cynllunio'n effeithiol, mae'n debyg na fyddwch chi'n gallu bodloni gofynion pawb ar unwaith felly byddwch yn realistig ynghylch pryd y gallwch agor a faint o blant allwch chi ofalu amdanyn nhw'n ddiogel. | |
| Cynhaliwch fore coffi rhithiol gydag aps fel Zoom neu Skype neu grŵp WhatsApp i godi eu hyder. | |
| Ystyriwch wneud fideo o unrhyw osodiad newydd er mwyn i'r rhieni a'r plant allu gweld sut y gallan nhw gadw pellter cymdeithasol ar ôl agor. | |
| Rhowch ganllawiau a chyfarwyddiadau clir i rieni, gwnewch yn siŵr eu bod yn deall y newidiadau rydych chi wedi'u gwneud. Eglurwch | |

| | |
|---|---|
| yn glir pam nad yw rhai gweithgareddau’n cael eu cynnig megis chwarae mewn tywod a dŵr. | |
| Gwnewch yn siŵr fod rhieni’n deall na allan nhw ddod â phlentyn i’r lleoliad os ydyn nhw neu unrhyw aelod o’u cartref yn dangos unrhyw symptomau a phwysleisiwch fod yn rhaid iddyn nhw ddilyn y canllawiau presennol ynghylch ynysu cymdeithasol. | |
| Agorwch a chau ar wahanol adegau fel nad oes yna lawer o bobl yn disgwyl y tu allan. | |
| Awgrymwch na ddylai ond un rhiant fod gyda phlentyn. | |
| Cadwch ddigon o bellter rhwng rhieni a staff. | |
| Ystyriwch ddyddiaduron dyddiol, i’w hanfon drwy e-bost. | |
| Cynigiwch drafod gyda rhieni drwy alwadau fideo. | |
| **Plant** | |
| Beth am gael sesiwn chwarae rithiol ar gyfryngau cymdeithasol gyda rhywbeth syml, efallai amser stori neu amser canu? | |
| Os bydd eich staff yn gwisgo offer diogelu personol, yn enwedig masgiau, dangoswch i’r plant sut y byddan nhw’n edrych. | |
| Dangoswch i’r plant daith rithiol o sut mae’r gosodiad newydd yn edrych. | |
| Efallai y bydd yn rhaid i chi gadw plant a staff mewn grwpiau penodol. Os felly, peidiwch â gadael i staff na phlant symud i grŵp arall os yn bosibl.<br>Efallai yr hoffech chi roi teulu neu ffrindiau mewn grwpiau neu eu grwpio yn ôl bod yno’n ôl y dydd neu mewn sesiynau. | |
| Os bydd plentyn yn dangos arwyddon salwch, dylid ei ynysu ar unwaith a galw rhiant / gofalwr i’w nôl. Dilynwch y canllawiau presennol cyn derbyn plentyn yn ôl, h.y ynysu cymdeithasol am saith diwrnod, 14 diwrnod i aelodau o’r cartref. | |
| Bydd gan blant ag anghenion dysgu ychwanegol anghenion gwahanol iawn a bydd yn rhaid asesu pob plentyn yn unigol. | **Bydd rhagor o ganllawiau ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol ar gael cyn bo hir** |
| **Bwyd / byrbrydau** | |
| Mae’n rhaid golchi dwylo cyn ac ar ôl bwyta. | |

| | |
|---|---|
| Ai chi fydd yn darparu'r bwyd / byrbrydau? Gwnewch yn siŵr y byddwch yn gallu cael cyflenwadau o'r bwydydd y byddwch eu hangen. | https://www.food.gov.uk/ |
| A fydd gan y plant eu platiau, cyllyll a ffyrc a'u cwpanau eu hunain? A fydd gofyn iddyn nhw ddod â'r rhain gyda nhw? | |
| Efallai y byddwch eisiau ystyried rhai untro ac er nad yw hynny'n amgylcheddol gyfeillgar efallai mai'r dewis doethaf yn y tymor byr. | |
| Dynodwch fannau bwyta penodol er mwyn i blant a staff allu aros yn eu grwpiau eu hunain. | |
| Rhannwch adegau bwyta a gwneud yn siŵr fod lleoedd bwyta'n cael eu glanhau'n drylwyr ar ôl pob un. | |

Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru

Early Years Wales 2018. Registered in Wales.
Registered Office: Unit 1, Coopers Yard, Curran Road, Cardiff CF10 5NB
Company limited by guarantee 3164233. Charity 1056381

Blynyddoedd Cynnar Cymru 2018. Gofrestredi yn Cymru.
Swyddfa Gofrestredig: Uned 1, Iard y Cowper, Ffordd Curran, Caerdydd CF10 5NB
Cwmni cyfyngedig trwy warant 3164233. Elusen 1056381